


Trosolwg o'r Broblem

Risg Llifogydd

Mae gan Afon Tregatwg hanes o orlifo ym mharthau Dinas Powys yn ogystal ag ardal ddiwydiannol y Barri. O ganlyniad rydym wedi creu model mathemategol i wella ein dealltwriaeth o'r dalgylch, a thrwy hynny wella'n rhagolygon o lifogydd.



Allwedd:
Mesur y llifogydd yn bresennol, gyda siawns 1% (neu 1 mewn 100) o lifogydd.

Dinas Powys
Caiff llifogydd yn Ninas Powys eu hachosi pan fydd glaw trwm yn y dalgylch i fyny'r afon yn cyrraedd yr afon yn sydyn. Ar yr adegau hynny, bydd mwy o lif na all yr afon ei gynnwys. Tir wedi'i ddatblygu sydd gerllaw'r afon yn bennaf, felly prin iawn yw'r gorllifdroedd yn y dref ei hun allai leddfu'r llifogydd. O ganlyniad, mae'r afon yn gorlifo ar eiddo a thir cyfagos yn gyson- gyda siawns o 3.33% (neu 1 mewn 30) o ddiwydd.

Mae'r cofnodion yn dangos bod eiddo wedi dioddef llifogydd ar St Cadocs Avenue, Greenfield Avenue, Elm Grove Place a Cardiff Road yn ystod llifogydd 1948, 1986, 1998, 1999 a 2008. Mae nifer o ddiwyddiadau eraill wedi bod hefyd, lle bu llifogydd ar lonydd a thir, a oedd yn agos iawn at achosi difrod i eiddo. Mae ein model rhagolwg ni'n cydymffurfio â'r cofnodion hyn.

Er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn Ninas Powys bydd angen un ai lleihau anterth llif yr afon neu wneud atodiadau i gwrs yr afon.

Ardal Ddiwydiannol y Barri
Ardal Ddiwydiannol y Barri, ger Dociau'r Bari, yw'r rhan isaf o ddalgylch yr afon ac mae'n cynnwys Rhostir Sili, ardal eang o orlifdir naturiol. Mae Afon Tregatwg yn wastad iawn yma, a'n cwrdd â'r llanw wrth adael yr aber. O ganlyniad, mae cyfradd dadlwytho'r afon wedi'i gyfyngu yma- pan fydd yr aber yn cael ei thagu gan y llanw, bydd lefelau d r yn codi i fyny'r afon gan achosi llifogydd. Er bod y rhostir yn gorlifo'n aml, ac am gyfnodau hir weithiau, nid yw'n lleddfu'r perygl o lifogydd yn ddigonol.

Mae eiddo diwydiannol wedi dioddef llifogydd yn 1998, 2008, a 2012. Bu nifer o ddiwyddiadau eraill hefyd, gyda llifogydd ar lonydd a thir, a ddaeth yn agos iawn at achosi difrod i eiddo

Er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn Ardal Ddiwydiannol y Barri bydd angen cynyddu cynhwysedd yr afon neu wella'r olyngfa lanwol.


Yn bresennol, rydym yn rhagweld bod 129 o gartrefi gyda siawns 1% (neu 1 mewn 100) o ddiwydd llifogydd.

Bydd y ffigwr yn cynyddu i 308 o gartrefi erbyn 2117 o ganlyniad i newid hinsawdd.


Mae'r mwyafrif o'r eiddo hyn yn fusnesau masnachol neu ddiwydiannol sy'n darparu gwaith yn yr ardal.

Yn bresennol, rydym yn rhagweld bod 198 o gartrefi Dinas Powys gyda siawns 1% (neu 1 mewn 100) o ddiwydd llifogydd.

Bydd y ffigwr yn cynyddu i 352 o gartrefi erbyn 2117 o ganlyniad i newid hinsawdd.



Digwyddiadau Llifogydd yn y Gorffennol



Cardiff Road, ger Brookside, Gorfennaf 2007 | Cefn St Cadocs Avenue, Gorfennaf 2007 | Sully Moors Road, 2012 | Mill Road, Hydref 2013




Beth mae CNC yn ei wneud ynghylch llifogydd?

Astudiaethau diweddar

Mae'r pryderon yngl n â llifogydd Afon Tregatwg yn Ninas Powys ac Ardal Ddiwydiannol y Bari wedi bod yn hysbys i ni ers tro, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ystyried y problemau, yr achosion, a'r

datrysiadau posibl ers 1998. Wrth gysidro'r opsiynau i leihau'r perygl o lifogydd rydym wedi cyflawni nifer o ymchwiliadau, gan ddefnyddio'r dulliau a'r dechnoleg ddiweddaraf.



Y Prosiect Cyfredol

Mae'r Achos Busnes ar gyfer y cynllun rheoli llifogydd yn nalgylch Tregatwg yn tynnu tua ei derfyn, ac rydym yn awyddus i rannu'r canlyniadau ac i ddysgu mwy am eich barn chi.

Rydym wedi creu model llifogydd ar gyfer y dalgylch cyfan er mwyn dadansoddi'r perygl presennol ac i adnabod ac asesu opsiynau er mwyn ei reoli. Modelwyd nifer o opsiynau i wirio eu hymarferoldeb, a pharatowyd dyluniadau peirianyddol amlinellol ar gyfer yr opsiynau amgenach.

Cwblhawyd ystod o arolygon amgylcheddol er mwyn ceisio deall effaith posibl yr opsiynau, a'r ffyrdd y gallwn leihau neu osgoi'r effeithiau hynny.

Rydym wedi ymgynghori â nifer o bartneriaid yn ystod y broses, ond rydym yn gwerthfawrogi mai trigolion a busnesau Dinas Powys ac Ardal Ddiwydiannol y Barri fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y cynllun. O ganlyniad, rydym yn croesawu eich adborth a'ch barn chi yn y broses o wneud penderfyniadau.

Cwestiynau ac Atebion - Beth yw Achos Busnes?

Mae Achos Busnes yn cyfiawnhau'r defnydd o nawdd cyhoeddus mewn prosiect, gan ddilyn canllawiau'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n gyfrifol ac yn ôl yr angen mwyaf.

Mae'r Achos yn archwilio'r opsiynau posibl, gan gysidro os ydynt yn gyfiawnadwy'n ariannol ac yn ddanfodwy. Yn syml, mae'n dangos bod buddion prosiect yn ddigon i gyfiawnhau'r costau a'r peryglon.

Gwytnwch Llifogydd Lleol

Mae'n cymryd cryn amser i ariannu, cynllunio, ac adeiladu amddiffyniadau llifogydd. Mewn ambell i achos, nid yw adeiladu amddiffynfeydd yn gynllun hyfyw. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu'n uniongyrchol i hysbysu pobl o'r peryglon o lifogydd, a'n gweithio i gynyddu gwytnwch lleol yn erbyn llifogydd. Mae'r rhestr isod yn dangos rhai o'r gwasanaethau a'r mentrau llifogydd sy'n cael eu harwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

Floodline

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhagolygon llifogydd ac yn rhybuddio'r cyhoedd. Mae ein staff ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac yn barod i rybuddio ac ymateb i lifogydd.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn darparu rhybuddion dros y ffôn, e-bost, neu neges destun os yw'ch cartref neu eich busnes mewn perygl. Amcan y gwasanaeth yw galluogi unigolion, cymunedau, a gwasanaethau i baratoi'n ddigonol ar gyfer llifogydd.

Codau Rhybudd Llifogydd:



Hysbysiad Llifogydd



Rhybudd Llifogydd



Rhybudd Llifogydd Difrifol

Os hoffech chi gofrestru â Floodline, os gwelwch yn dda siaradwch ag aelod o dîm Cyfoeth Naturiol Cymru neu ymweld â'n gwefan.

Grwp Llifogydd Lleol


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â grwpiau llifogydd lleol er mwyn deall a rheoli llifogydd. Ynghyd â Chyngor Morgannwg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gyfrannydd uniongyrchol i Grwp Llifogydd Lleol Rhostir Sully.

Ymwybyddiaeth o Lifogydd

Ni allwn atal llifogydd yn gyfan gwbl - ond mae modd i ni leihau'r tebygolrwydd ohono'n digwydd, gan helpu i baratoi pobl ar ei gyfer a chyfyngu'r difrod a wneir. Mae ein timau ymwybyddiaeth llifogydd yn trefnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd er mwyn hysbysu cymunedau o'r risg y mae llifogydd yn ei beri iddynt, a'u helpu i baratoi. Bu'n timau ni'n ymweld â Dinas Powys yn 2013 a 2015.



Pa gynigion sydd wedi cael eu cysidro?



Allwedd

- Opsynnau i Amddiffyn rhag Llifogydd wedi'u Wrthod
- Rhestr Fer o'r Opsynnau i Amddiffyn rhag Llifogydd

Cynnyddu cynhwysedd i fyny'r afon

Cynllun i Gronni Llifogydd yn Afon Tregatwg trwy storio dŵr mewn cronfa yn ystod cyfnodau o law trwm. Bydd hyn yn lleihau anterth y llif a lefelau'r afon yn Ninas Powys, gan leihau'r risg o lifogydd.

Cynnig wedi'i ychwanegu i'r rhestr fer.

Rheolaeth Naturiol o Lifogydd

Ymchwiliwyd nifer o fesurau naturiol o reoli llifogydd ar gyfer yr holl afonydd o fewn yr ardal astudiaeth. Gwelwyd mai'r opsiwn mwyaf effeithiol oedd adeiladu cyfres o rwystrau tyllod o fewn y sianeli sy'n bodoli'n barod ar afon East Brook, i fyny'r afon o Ddinas Powys. Byddai hyn yn arafu'r llif, gan leihau anterth y llif a llifogydd yn East Brook.

Mae angen ymchwiliadau pellach er mwyn cadarnhau pamor effeithiol fyddai'r opsiwn, ac ar gyfer y cyfnod dylunio.

Cynnig wedi'i ychwanegu i'r rhestr fer.

Waliau Llifogydd trwy Dinas Powys

Adeiladu oddeutu 4.7km o waliau llifogydd newydd ar hyd Afon Tregatwg ac East Brook yn Ninas Powys, gan reoli'r perygl o lifogydd yn y dref.

Byddai'r waliau o hyd sylweddol, ac yn cael eu hadeiladu yng ngerddi nifer o eiddo. Byddai rhaid i'r prosiect ystyried nifer o asedau sy'n bodoli'n barod hefyd, megis pontydd a chloddiâu rheilffyrdd.

Cynnig wedi'i wrthod o ganlyniad i raddfa'r gwaith, costau uchel, peryglon wrth gyflawni, a'r ffaith y byddai'n tarfu ar eiddo preifat a chanol y dref.

Dymchwel Pont Cross Common

Dymchwel y bont bresennol gan ei bod yn rhwystr sylweddol i lif yr afon. Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu'r llif gan leihau'r perygl o lifogydd i fyny'r afon.

Cynnig ddim ar gael, gan fod Cyngor Morgannwg wedi cyflawni'r gwaith yn ddiweddar.

Cronfa Llifogydd y tu ôl i Hen Glawdd Rheilffordd

Rheoli'r llif trwy'r hen glawdd rheilffordd er mwyn cynyddu cynhwysedd yr afon yn ardal Rhostir Sully, gan leihau'r perygl o lifogydd yn Ardal Ddiwydiannol y Bari.

Cynnig wedi'i wrthod o ganlyniad i beryglon peirianyddol sylweddol, costau uchel, a gwelliannau cymedrol i'r perygl o lifogydd.

Gwelliannau i'r Arllwysfa Lanwol

Adfer cynhwysedd gwreiddiol yr arllwysfa lanwol trwy gynyddu maint y geuffos, a thrwy hynny adael i'r llif gyrraedd y môr yn gynt. Byddai'n lleihau tagfeydd llanwol a'r perygl o lifogydd yn Ardal Ddiwydiannol y Bari (ni fyddai'n cael effaith ar Ddinas Powys).

Cyfle i ddatrys problem gydag ased anniogel CNC hefyd. Achos economaidd arbennig.

Cynnig wedi'i ychwanegu i'r rhestr fer.

Ceuffos Lleddfu Llifogydd East Brook

Ceuffos lleddfu ar afon East Brook er mwyn cynyddu cynhwysedd yn y manau ble mae'r afon wedi'i chyfyngu. Byddai'r geuffos newydd yn cael ei hadeiladu ger ceuffos y rheilffordd, ond ychydig i fyny'r afon, gan ymestyn tuag at Afon Tregatwg ger Rhodfa St Cadoc.

Cynnig wedi'i wrthod o gysidro'r gost, y peryglon peirianyddol sylweddol, ac effeithiolrwydd cyfyngedig.

Gwaith Cynnal a Chadw Sylweddol

Cynnydd yn y gwaith cynnal a chadw ar wely'r afon yn Ninas Powys, yn ogystal ag ardal o Nant Sully. Byddai torri coed a llystyfiant, echdynnu ysbwriel a threillio yn ôl yr angen, yn cyflymu llif yr afon.

Cynnig wedi'i wrthod gan nad oedd canlyniadau'r model llifogydd yn dangos gwelliant digonol.

Ceuffos Lleddfu Llifogydd Hayes Road


Adeiladu ceuffos lleddfu 250m o hyd, gan ymestyn rhwng Hayes Road ac aber yr Hafren. Byddai'n gwella draeniad lleol.

Cynnig wedi'i wrthod gan nad oedd y lleihad mewn perygl llifogydd yn ddigonol, yn ogystal â'r peryglon peirianyddol.



Beth yw'r opsiynau amgenach?

East Brook Rheolaeth Naturiol o Lifogydd



Beth yw Rheolaeth Naturiol o Lifogydd?

Mae Rheolaeth Naturiol o Lifogydd (NFM) yn golygu defnyddio dulliau sy'n amddiffyn, adfer, ac yn efelychu swyddogaethau naturiol y dalgylch, afonydd, a'r gorlifdir. Mae'n ddull sy'n manteisio ar gyfleodd i arafu llif d r, storio gorlif dros dro, cynyddu cysylltedd rhwng afonydd a gorlifdir, a gwella hydroeddad pridd trwy'r dalgylch cyfan. Gallai'r dull hwn helpu i leihau'r perygl o lifogydd i bobl ac eiddo, gan ychwanegu tuag at effeithlonrwydd systemau rheoli llifogydd traddodiadol.

Boncyffion Coed

Fel arfer, mae rhwystrau NFM yn cael eu cynhyrchu trwy osod pren neu foncyffion coed ar draws gwely'r afon. Yna caiff y coed eu clymu i'w gilydd a'u hangori i sicrhau nad ydynt yn cael eu cludo i lawr yr afon gan lifogydd. Os yw rhwystr yn cael ei ddylunio i atal llif cryf, bydd angen i'r strwythur fod yn gryfach a'n fwy sylweddol.




Rydym wedi chwilio am opsiynau NFM posibl yn nalgylch Afon Tregatwg ac wedi adnabod cyfle posibl ger nant East Brook, i fyny'r afon o Ddinas Powys, fyddai'n lleihau'r perygl o lifogydd yn y dre. Mae'r nant, ynghyd a nant Mill Ffarm, rhwng Lland ac Eastbrook gyda gwely llydan sydd yn addas ar gyfer storio gorlif a lleihau anterth y llif yn is lawr yr afon.

Byddai cynhwysedd y nentydd yn cael eu cynyddu trwy adeiladu rhwystrau tyllog yn y sianeli. Byddai'r rhwystrau hyn yn arafu'r d r yn ystod llifogydd heb gyfyngu ar lif arferol yr afon. Mae nifer o opsiynauwrthadeiladu'r rhwystrau tyllog hyn, gan gynnwys y ddwy enghraifft a ddisgrifir cyfagos.



Slatiau Coed gyda Stanciau Colofnog

Dyma opsiwn sy'n gofyn mwy o waith adeiladu, ond mae'n darparu strwythur hirdymor sydd yn fwy cyson ei berfformiad. Bydd stanciau 'H' yn cael eu gosod yn y tir er mwyn rhoi sylfaen cadarn i'r rhwystr, yna bydd slatiau pren yn cael eu gosod rhyngddynt er mwyn cwblhau'r rhwystr.





Gwelliannau i'r Arllwysfa Lanwol

Mae gan yr arllwysfa lanwol bresennol hanes hir. Cafodd y strwythur gwreiddiol ei godi gyda bwa brics mawr a llifddorau pren. Yn anffodus, cafodd y drysau eu dinistrio gan storm yn 1986 a bu rhaid gweithredu ar frys i atal llifogydd llanwol yn Ardal Ddiwydiannol Y Barri. Fel rhan o'r gwaith brys, gosodwyd pibell ddur 2m o ddiamedr o fewn y geuffos cyn ei llenwi gyda choncrid. Cafodd y llifddorau eu cyfnewid am fflap bychan. Lleihawyd cynhwysedd yr arllwysfa o ryw 66% o ganlyniad i'r gwaith.

Yn dilyn hynny, cymerodd CC gyfrifoldeb dros yr ased, gan osod sgrin ysbwriel yng ngwely'r afon ar yr ochr oddi wrth y môr. Ni wnaeth hyn lawer i wella'r sefyllfa ac mae'r sgrin yn anodd ei chynnal.

Rydym yn cynnig ein bod yn dymchwel y gwaith brys a wnaed trwy dynnu'r bibell 2m, gan adfer yr arllwysfa i'w maint gwreiddiol. Byddai'r fflap llanwol yn cael ei amnewid am lifddorau mwy hefyd. Bydd hyn yn adfer cynhwysedd yr arllwysfa, gan leihau'r perygl o lifogydd i Ardal Ddiwydiannol Y Barri gan beri i'r d r gyrraedd yr aber yn gynt.

Byddwn hefyd yn cyflawni gwaith i wella mynediad i staff gweithredol, i helpu gydag effeithlonrwydd hirdymor y strwythur.




Croestoriad yn dangos yr arllwysfa bresennol yn ogystal â'r newidiadau arfaethedig



Beth yw'r opsiynau amgenach?

Cronfa lifogydd




Byddai ardal storio d r uwchlaw Dinas Powys yn lleihau anterth y llif trwy'r dref yn sylweddol, gan leihau lefelau d r a llifogydd.

Y cysyniad yw storio gorlif am gyfnodau byr i fyny'r afon o Ddinas Powys, cyn ei ryddhau'n raddol fel na fydd yn achosi llifogydd. Byddai'r d r yn cael ei storio y tu ôl i glawdd pridd mawr, gyda cheuffos i gyfyngu'r llif i lawr yr afon. Anaml byddai'r gorlifdir y tu ôl i'r clawdd dan d r, a hynny ond am gyfnodau byr.


Rydym wedi cydnabod yr ardal rhwng Coedwig Cwm George a Choedwig Casehill fel safle gyda'r potensial i weithredu fel cronfa lifogydd. Gallai'r ardal storio hyd at 180,000m³ o dd r, sy'n ddigonol i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd yn Ninas Powys o 3.33% (1 mewn 30) i 1% (1 mewn 100).

Mae'r safle hwn yn cael ei ystyried o ganlyniad i'w leoliad yn ogystal â'i dopograffeg addas. Rydym yn credu byddai'r opsiwn hwn, o'i gymharu ag opsiynau eraill, yn cael llai o effaith ar gymuned Dinas Powys a'r amgylchedd. Wrth gwrs, bydd effaith ar yr ardal yn y tymor byr yn ogystal â'r hir dymor. Rydym yn ymdrechu i ganfod opsiynau i leihau a lleddfu'r effeithiau negyddol hyn, ac yn croesawu adborth y gymuned yngl n â'r mater. Bydd unrhyw adborth yn gymorth wrth i ni siapio a datblygu'r opsiwn. Mae'r cynllun gyferbyn yn arddangos yr agweddau allweddol sy'n cael eu hystyried yn ystod datblygiad yr opsiwn hwn.



Beth yw'r manteision a'r peryglon?

Gostyngiad cyffredinol i'r perygl o llifogydd



Cronfa Llifogydd

- Gwella hygyrchedd cyhoeddus i fyd natur a'r awyr agored.
- Mesurau adfer afonydd i wella cysylltedd yr afon a'r gorlifdir.
- Sgriffiadau i ddarparu cynefinoedd gwlypdir er mwyn hybu sefydliad amffibiaid megis madfallod d r cribog.
- Plannu coetir gwlyb ar y gorlifdir i wella cysylltedd cynefinoedd a bioamrywiaeth.
- Byrddau addysgiadol ger safle'r cynllun i wella ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a pherygl llifogydd.
- Byddai'r deunydd i adeiladu'r clawdd i'w gael o fewn ardal y gronfa, gan leihau lefelau traffig yn ystod yr adeiladu a lleihau'r ôl troed carbon.

- Colli cyfran o goedwig lled-hynafol.
- Gallai'r cynllun effeithio ar rywogaethau sy'n cael eu hamddiffyn, megis ystlumod, adar sy'n paru, moch daear, pysgod, ac infertebratau.
- Posibiliad byddpresenoldeb y clawdd yn niweidio tirlun Cwm George.
- Bydd llwybrau cerdded ar gau neu'n cael eu dargyfeirio dros dro yn ystod llifogydd.
- Y cyfnod adeiladu yn tarfu'n lleol.

Rheolaeth Naturiol o Llifogydd, East Brook


- Defnydd o nodweddion naturiol i reoli'r perygl o lifogydd.
- Gallai mesurau adfer afonydd gael eu cyflwyno yn Ninas Powys.
- Gwelliannau i gynefinoedd a bioamrywiaeth.
- Modd cynnwys tîrffeddiannwyr lleol yn y rheolaeth o berygl llifogydd.

- Angen ymchwiliadau pellach er mwyn cadarnhau effeithiolrwydd ac anghenion adeiladu.
- Gallai'r cynllun effeithio ar rywogaethau sy'n cael eu hamddiffyn, megis ystlumod, adar sy'n paru, moch daear, pysgod, ac infertebratau.
- Bydd sawl tîrffeddiannwr yn cael eu heffeithio a'u tarfu gan y cyfnod adeiladu.

Gwelliannau i'r Arllwysfa Lanwol

- -Gwella symudiad pysgod a llisywod i fyny'r afon.
- -Gwella diogelwch gweithredol staff CNC.
- -Gwella gwytnwch yr ased rhag methiant y fflap llanwol trwy osod ail lifddor.

- -Bydd symudiad pysgod a llisywod yn cael ei gyfyngu yn ystod y cyfnod adeiladu.
- -Gallai effeithio ar fur terfyn presennol.



Buddion Cynllun Llifogydd:

Dros y dalgylch

- Lleihau'r perygl o lifogydd i eiddo presennol sydd â thebygolrwydd 3.33% (neu 1 mewn 30) o ddiodeff llifogydd pob blwyddyn.
- Mae 311 eiddo wedi'i hamddiffyn rhag llifogydd hyd at ddiwyddiad 1% (neu 1 mewn 100). Bydd y ffigwr yn cynyddu i 449 erbyn 2117.
- Amcangyfrifir bydd costau difrod llifogydd yn lleihau o £28.7m i £6.0m yn ystod digwyddiad â thebygolrwydd o 1% (neu 1 mewn 100), neu dros gan mlynedd.
- Amcangyfrifir bydd y buddion economaidd werth £22.7m dros gyfnod o ganrif.

Buddion i Ddinas Powys

- 207 eiddo wedi'u hamddiffyn rhag llifogydd hyd at ddiwyddiad 1% (neu 1 mewn 100), a 237 erbyn 2117.
- Eiddo preswyl sy'n cael eu hamddiffyn ar y cyfan, ond bydd budd i ysgolion a llyfrgell hefyd.
- Gallai hwylyso adferiad y sianel concriid yn East Brook i'w stad naturiol yn y dyfodol.

Buddion i Ardal Ddiwydiannol Y Barri

- 104 eiddo wedi'u hamddiffyn rhag llifogydd hyd at ddiwyddiad 1% (neu 1 mewn 100), a 212 erbyn 2117.
- Eiddo diwydiannol sy'n cael eu hamddiffyn ar y cyfan, gan gynnwys safleoedd hanfodol ar gyfer isadeiledd a chyflogaeth.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Paratodau ar gyfer achos busnes a dyluniad amlinellol



Disgwylir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwblhau'r gwerthusiad opsiynau, y dyluniad amlinellol, a'r achos busnes ym misoedd cynnar 2018. Bydd yr adborth ymgynghorol a dderbyniwyd gan y rhanddeiliaid a'r gymuned yn cael eu hystyried yn ystod y broses hon.

Bydd rhaid i'r achos busnes gael ei gyflwyno i Fwrdd Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru cyn i'r nawdd gael ei gymeradwyo. Rydym yn credu bod sail economaidd a chymdeithasol cryf i'r gwaith yn Ninas Powys ac Ardal Ddiwydiannol Y Barri, ac mae'r opsiynau amgenach yn ddatrysiadau cytbwys i leihau'r perygl o lifogydd. Ond mae pryderon ynghlwm â phob opsiwn, ac mae'n hynod bwysig ein bod ni'n ymwybodol o farn a chefnogaeth y gymuned ym mhob agwedd o'r gwaith.

Os bydd nawdd yn cael ei wobrwyo, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu dyluniadau manwl ac yn ceisio pob caniatâd, cydsyniad, a chytundeb sy'n berthnasol i barhad y gwaith cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydweithio'n agos gyda'r gymuned, y Cyngor, a'r tîrfeddianwyr a gaiff eu heffeithio wrth ddatblygu'r dyluniad manwl- gan gynhyrchu cynllun sy'n lleddfu cymaint o bryderon ag sy'n bosibl. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y Gronfa lifogydd hefyd. Byddwn yn ymgynghori ymhellach gyda'r gymuned a'r rhanddeiliaid ynghlwm â'r cynllun yn ystod y cyfnod datblygu dyluniad.

Unwaith caiff y dyluniadau eu cwblhau, a phob caniatâd ei roi, gall y gwaith adeiladu gychwyn. Rydym yn obeithiol bydd y gwaith yn arllwysfa Ardal Ddiwydiannol Y Barri'n digwydd yn 2018, a'r clawdd llifogydd a'r rheolaeth naturiol o lifogydd yn Ninas Powys ac Eastbrook yn digwydd yn 2019-2020.

Gadewch i ni glywed eich barn...

Mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n clywed eich barn chi. Mae tîm y prosiect ar gael i drafod peryglon llifogydd a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried, yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau. Mae ffurflenni adborth ar gael i gofnodi unrhyw sylwadau neu argymhellion sydd gennych, i'w defnyddio wrth i ni wneud penderfyniadau

Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ynghlwm â'r pynciau isod:

Oeddech chi'n ymwybodol fod Dinas Powys ag Ardal Ddiwydiannol Y Barri mewn perygl gan lifogydd?

Ydy llifogydd wedi'ch effeithio chi yn y gorffennol?

Ydych chi'n cefnogi'r opsiynau a'r dyluniadau a drafodir yma?

Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghlwm â'r opsiynau a'r dyluniadau a drafodir yma?

Ydych chi'n credu bydd y cynllun yn gwella neu niweidio cymeriad Dinas Powys?

Sut gallwn ni wella'r opsiynau a'r dyluniadau a gynigiwyd?

AM RAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â: CADOXTON@NATURALRESOURCESWALES.GOV.UK
NEU DANFONWCH LYTHYR AT: TY CAMBRIA, 29 NEWPORT ROAD, CARDIFF, CF24 0TP

